

**Dadansoddiad o'r ymatebion a
dderbyniwyd i'r ymgynghoriad
cyhoeddus ar Gynllun Llesiant drafft
Cwm Taf**



UNED DDATA LLYWODRAETH LEOL ~ CYMRU
LOCAL GOVERNMENT DATA UNIT ~ WALES

Cynhyrchwyd gan: Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru *ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus*
Cwm Taf

Cyhoeddwyd: Ionawr 2018

www.dataunitwales.gov.uk

029 2090 9500

enquiries@dataunitwales.gov.uk

Mae'r adroddiad yma ar gael yn Saesneg a Chymraeg.

Tabl cynnwys

Crynodeb Gweithredol	1
Cyflwyniad.....	2
Cefndir.....	2
Tystiolaeth ymgynghori	4
Rôl ymgysylltu.....	4
Dadansoddiad	4
Digwyddiadau ymgynghori	6
Ymgynghori ar-lein.....	9
Ymatebion statudol	18
Ymatebion eraill.....	200
Casgliadau a themâu sy'n dod i'r amlwg.....	255
Atodiad A - Ymgynghoreion statudol ac ymatebwyr	28
Atodiad B - Ymarferion ymgynghori.....	29
Atodiad C - Cwestiynau ymgynghori ar-lein.....	31

Crynodeb Gweithredol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a chreu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi newid sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cyflawni a chydweithio yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o ofynion ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n cynnwys ymgynghori ar eu hamcanion drafft cyn cyhoeddi eu cynlluniau Lles.

Roedd yr ymgynghoriad yng Nghwm Taf yn cynnwys 20 gweithdy a digwyddiadau cymunedol ac ymgynghoriad ar-lein. Yn ogystal, roedd ymatebion ysgrifenedig gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, ymgynghoreion statudol eraill a phartïon eraill â diddordeb.

Bu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (BGC/PSB) yn ymwneud ag Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru i gynnal dadansoddiad o'r wybodaeth a gasglwyd trwy'r ymarfer ymgynghori. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y dadansoddiad hwnnw.

Dangosir y dadansoddiadau ar gyfer pob rhan o'r ymgynghoriad ar wahân. Mae hyn yn caniatáu gwahaniaethau yn yr ymatebion o bob rhan o'r ymgynghoriad i gael eu dangos.

Rydym wedi llunio'r dadansoddiadau i nodi themâu sy'n dod i'r amlwg o'r ymarfer ymgynghori yn gyffredinol. Un o'r argraffiadau cyffredinol oedd y gefnogaeth gref ar gyfer yr amcanion drafft a'u gweithredoedd cysylltiedig.

Yn ychwanegol at y gefnogaeth hon, cafwyd llawer o awgrymiadau ar gyfer gwaith ychwanegol ac anogaeth i'r BGC barhau i ymgysylltu â'r cyhoedd.

Y themâu sy'n dod i'r amlwg yw:

- Y potensial ar gyfer mwy o ddefnydd o asedau a chyfleusterau cymunedol presennol
- Gwella lles cyffredinol - iechyd corfforol a meddyliol
- Prydlondeb gwell mynediad i'r holl ddarpariaeth iechyd
- Yr angen a'r cyfle i weithio yn wahanol
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â phob sector o'r gymuned

Cyflwyniad

Yn dilyn ymarfer tendro, cawsom ni (Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru) eu comisiynu gan Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Cwm Taf i ddarparu '... dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gynllun drafft Cwm Taf'.

Gofynnwyd i ni ddarparu'r canlynol:

- dadansoddiad ansoddol a meintiol o'r data a gasglwyd o weithgaredd ymgynghori ar-lein; a
- dadansoddiad ansoddol a meintiol o'r data a gasglwyd o weithgaredd ymgynghori arall (gweithdai, digwyddiadau cyhoeddus, ymatebion gan ymgynghoreion statudol, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol).

Yr adroddiad hwn yw'r prif gyflawniad.

Cefndir

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, asesiadau a chynlluniau lles

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn nodi ac yn gosod rhai dyletswyddau ar 'gyrff cyhoeddus'. Mae pob awdurdod lleol, byrddau iechyd lleol a llawer o sefydliadau eraill yn cael eu nodi fel cyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd lles yn nodi bod rhaid i bob corff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion lles, a gynlluniwyd i gyfrannu at y saith nod lles a nodir yn y Ddeddf, a chymryd 'pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) i fodloni'r amcanion hyn'.

Er mwyn cyflawni'r rhain ar lefel leol, mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Gall BGC gwmpasu mwy nag un ardal awdurdod lleol, fel y mae BGC Cwm Taf yn ei wneud.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r BGC gynhyrchu 'Asesiad o Lles' yn eu hardal ac yna cyhoeddi cynllun (Cynllun Lles Lleol) sy'n nodi ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn.

Mae arweiniad gan Lywodraeth Cymru yn rhoi cyngor penodol ar sut y dylai BGC ymgysylltu ac ymgynghori wrth gynhyrchu eu hasesiadau lles a chynlluniau lles lleol.

Mae'r arweiniad yn darparu rhestr o ymgynghoreion statudol, y mae'n rhaid i'r BGC ymgynghori arnynt ar yr amcanion drafft am gyfnod o leiaf 12 wythnos cyn cyhoeddi eu cynlluniau lles lleol.

Hefyd yn yr arweiniad ceir gwybodaeth am ddisgwyliadau ar gyfer ymgysylltu BGC ag ymgynghoreion anstatudol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â dinasyddion.

Gwaith cynnar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)

Sefydlwyd BGC Cwm Taf i gyflawni cyfrifoldebau statudol awdurdodau lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf o dan y Ddeddf. Mae aelodaeth y BGC yn cynnwys pob corff statudol a chyfranogwyr eraill sy'n cael eu gwahodd.

Wrth gwrdd â'i ofynion statudol o dan y Ddeddf, cyhoeddodd y BGC asesiad Lles Lleol (ac asesiad poblogaeth i lywio drafftio eu cynllun gwasanaethau a Lles Cymdeithasol). Mae hefyd wedi cyhoeddi cynllun Lles drafft.

Mae'r drafft hwn yn cynnwys y tri amcan arfaethedig yr ymgynghorir arnynt. Dyma nhw:

- hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus, gwella Lles trigolion ac ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau cymunedol;
- helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau; a
- i dyfu economi leol gref gyda chludiant cynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf.

Cefnogir pob amcan gan grynoded o dystiolaeth berthnasol o'r asesiad Lles, ac mae'n anelu at y tymor byr, canolig a hir (o fewn pum mlynedd, o fewn 15 mlynedd, a rhwng 15 a 30 mlynedd).

Mae cyfrifoldeb statudol yn cael ei roi ar y BGC i ymgynghori ar eu hamcanion drafft. Wrth gyflawni'r rhwymedigaeth hon, mae BGC Cwm Taf wedi:

- ymgynghori yn ffurfiol ag ymgynghoreion statudol;
- cymryd rhan mewn cyfres o ddigwyddiadau gweithdy, digwyddiadau cyhoeddus a sesiynau galw heibio;
- sefydlu Rhwydwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd i gyrraedd grwpiau sefydledig;
- cyhoeddi ymgynghoriad ar-lein yn gofyn am farn pobl ar gynnwys eu hamcanion drafft.

Hysbysebu yr ymgynghoriad ar-lein yn uniongyrchol gyda grwpiau sefydledig ac ar gyfryngau cymdeithasol trwy sefydliadau partner.

Tystiolaeth ymgynghori

Ymgynghori ar-lein, gweithdai, digwyddiadau cymunedol, ymatebion gan ymgynghoreion statudol

Mae casglu gwybodaeth am farn ar yr amcanion drafft yn rhannu i ddau brif grŵp:

1. Ymatebion gan sefydliadau ac unigolion sy'n gorfod rhoi barn ar yr amcanion, neu'r rheiny mae'r BGC wedi gwahodd i ymateb fel rhan o'r broses.
2. Gwybodaeth a ddelir trwy ymgysylltu â dinasyddion, sy'n cynnwys y gweithdai a'r ymgynghoriad ar-lein.

Gellir gweld rhestr gyflawn o'r ymatebion ysgrifenedig a'r gweithdai yn Atodiad B - Ymarferion ymgynghori. Darperir lawr lwytho llawn o'r data amrwd o'r ymgynghoriad ar-lein i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar wahân i'r adroddiad hwn.

Rôl ymgysylltu

Rhoi'r ymgynghoriad hwn mewn cyd-destun

Mae'r ymarfer ymgynghori hwn yn dilyn ymarfer tebyg a wnaed fel rhan o ddrafftio'r asesiad Lles. Edrychodd yr asesiad ar ystod o dystiolaeth ynglŷn ag amgylchiadau lleol yng Nghwm Taf - yr heriau y mae'n eu hwynebu a'r ardaloedd mwyaf anghenus ynghyd â'i hasedau. Elfen allweddol o ddatblygiad yr asesiad oedd cynnwys, ac ymgysylltu â, dinasyddion a chymunedau ar draws Cwm Taf. Roedd hwn yn elfen arwyddocaol o'r broses asesu ac yn allweddol wrth lunio'r cynllun Lles drafft a'i amcanion.

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori pellach pan gyhoeddwyd yr amcanion drafft. Roedd ei ffocws yn fwy cul na'r ymarfer asesu, gan ganolbwyntio'n bennaf ar brofi priodoldeb yr amcanion drafft a'r camau arfaethedig, a hefyd i sicrhau nad oedd unrhyw fylchau. Gofynnodd hefyd am unrhyw syniadau ychwanegol ar gyfer camau neu bwyntiau gweithredu. Er ei bod wedi ei ganolbwyntio'n fwy, er hynny, bu'n ymarfer sylweddol, gan gynnwys dros 200 o ddinasyddion yn cynrychioli ystod o grwpiau ac ardaloedd ar draws Cwm Taf.

Er bod gan yr ymgynghoriad hwn ddiben penodol, bydd sgwrs barhaus ar draws Cwm Taf yn parhau i gael ei arwain gan y BGC wrth iddo gyhoeddi a gweithredu ar ei Gynllun Lles

Dadansoddiad

Ein hymagwedd

Er bod llawer o debygrwydd yn y ffocws ar draws y digwyddiadau ymgynghori a'r ymgynghoriad ar-lein ar yr amcanion, roedd yna wahaniaethau bach. Hefyd, roedd rhai o'r cyfraniadau gan bobl ifanc yn adlewyrchu trafodaeth ar faterion penodol yn hytrach nag ymagwedd systematig at adolygu'r holl amcanion. Felly, rydym wedi darparu dadansoddiad o'r ymatebion yn ôl y math o ymgysylltiad.

Mae ein dadansoddiad yn darparu cyfuniad o nodi themâu cyffredin o fewn y gwahanol fathau o ymgysylltiadau, gan ddangos enghreifftiau o ymatebion lle nad oedd themâu cyffredin yn dod i'r amlwg, a chyfuno'r dystiolaeth o bob ffynhonnell i nodi'r themâu sy'n dod i'r amlwg yn gyffredinol.

Mae ein dadansoddiad yn cynnwys cymysgedd o ddyfyniadau uniongyrchol gan gyfranogwyr a chrynodeb o sylwadau sy'n mynegi barn debyg. Lle rydym wedi defnyddio dyfyniadau uniongyrchol, dangosir y rhain mewn testun italig gyda dyfynodau. Lle bo'n briodol, rydym wedi diwygio dyfyniadau uniongyrchol i sicrhau bod y cyfranogwr yn ddiennw.

Digwyddiadau ymgynghori

Digwyddiadau cymunedol

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau agored ar draws ardal Cwm Taf ym mis Hydref a Thachwedd 2017. Roedd y rhain yn weithdai strwythuredig gyda chyflwyniad yn diffinio cynnwys y sesiynau. Amlinellodd y cyflwyniad y Ddeddf, y broses y mae'r BGC wedi mynd drwodd a'r amcanion drafft.

Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar dri chwestiwn:

- Ai'r rhain yw'r amcanion cywir?
- A oes unrhyw bethau eraill y dylid eu cynnwys?
- A oes unrhyw fylchau?

Rydym wedi cyfuno'r ymatebion o'r holl ddigwyddiadau cymunedol ac wedi dangos y sylwadau mwyaf cyffredin, yn ôl amcanion unigol, isod. O fewn pob amcan, mae'r ymatebion wedi'u grwpio dan y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r gweithdai.

Amcan Un - Cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus

Datblygu Parthau Cymunedol

At ei gilydd, roedd sylwadau ar y cynnig hwn yn gefnogol. Gwelwyd y syniad o sefydlu gwasanaethau a chyfleusterau mewn lleoliad canolog fel datblygiad cadarnhaol. Fodd bynnag, ymddengys bod disgwyliadau cyhoeddus ar yr ystod o wasanaethau a ddarperir yn uchel a gallai fod angen rheoli gallu'r Parthau hyn i ddiwallu eu holl anghenion. Byddai gweithredoedd a chyfathrebu clir yn sicrhau bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol o nod y rhan hon o'r amcan.

Diogelwch cymunedol

Mae'r ymatebion yn awgrymu bod rhai pobl hŷn yn anfodlon mynd allan yn y nos mewn rhai rhannau o Gwm Taf. Mae teimlo'n ddiogel yn gyffredinol yn fater a nodwyd mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad, ond gallai ffocws y sylwadau hyn adlewyrchu'r garfan o bobl sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn. Glendid strydoedd a manau cyhoeddus oedd y prif fater arall a godwyd.

Ysbryd / gweithgareddau cymunedol

Roedd yr ymatebwyr eisiau i gyfleusterau ac asedau gael eu gwneud ar gael yn fwy ar gyfer gweithgareddau cymunedol, dysgu, ac ati. Roeddent yn teimlo y gallai hyn ymestyn i glybiau, y trydydd sector a grwpiau gwirfoddol. Roeddent yn teimlo y dylai gweithgareddau ac ati ddigwydd yn ystod y nos a phenwythnosau, pan gaiff cyfleusterau (yr ysgolion y soniwyd amdanynt amlaf) eu tanddefnyddio.

Amcan Dau - Pobl yn byw bywydau hir ac iach

Iechyd oedd y mater unigol a grybwyllwyd amlaf ar draws yr holl ddigwyddiadau ymgynghori. Roedd yn amlwg yn ymddangos yn drwm o fewn yr amcan hwn, ond roedd rhai materion penodol yn amlwg ac mae'r rhain yn torri ar draws y tri amcan.

Gwasanaethau iechyd

Y ddau brif fater a godwyd oedd mynediad corfforol, ac amseroldeb penodiadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd. Unwaith eto, codwyd y mater hwn ar draws yr ymgynghoriad, ond yn yr achos hwn, roedd cwynion pobl yn canolbwyntio ar apwyntiadau meddygon teulu a chleifion allanol. Yn ogystal, codwyd y ddarpariaeth, neu ddiffyg gwasanaethau iechyd meddwl fel pryder. Hwn oedd yr unig faes gwasanaeth iechyd penodol a grybwyllwyd.

Parhau â'r gefnogaeth i Amcan Un, gofynnodd pobl am fwy o wasanaethau iechyd yn y gymuned, gan sôn yn benodol am ganolfannau mân anafiadau a darpariaeth aml-asiantaeth.

Hamdden a ffitrwydd

Roedd cefnogaeth gref i ddarpariaeth (neu fwy o ddarpariaeth) o gyfleusterau hamdden a chyfleoedd i wella ffitrwydd ac iechyd personol. Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr y dylai hyn gynnwys iechyd corfforol a meddyliol.

Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau wedi'u trefnu, megis nofio a chyfleusterau gampfa, a gweithgareddau awyr agored a hunan arweinir fel cerdded a beicio. Codwyd ymwybyddiaeth hefyd o'r hyn sydd ar gael o ran gweithgareddau a chyfleoedd sydd eisoes yn bodoli, a sut mae pobl yn gallu cael mynediad atynt, fel mater.

Amcan Tri - Economi leol gryf gyda thrafnidiaeth gynaliadwy

Y prif faterion a godwyd dan yr amcan hwn oedd diffyg cludiant cyhoeddus (bysiau yn bennaf) i fwrdd o'r prif ganolfannau ac ar nosweithiau a phenwythnosau, a'r diffyg banciau a siopau eraill mewn cymunedau llai. Nodwyd hefyd effaith negyddol parciau manwerthu mawr megis Talbot Green a Trago Mills ar gymunedau llai.

Digwyddiadau pobl ifanc

Cynhaliwyd pedwar digwyddiad ar wahân yn benodol gyda phobl ifanc, a gyfrannodd at y broses ymgynghori - tri digwyddiad Cynnwys a Chynulliad Dysgwr Coleg Merthyr Tudful.

Roedd y tri digwyddiad Cynnwys yn canolbwyntio ar yr amcanion drafft. Isod ceir crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd:

- Gallai cyfathrebu â phobl ifanc fod yn well, a dylid defnyddio'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y mae pobl ifanc yn eu defnyddio;
- Pam nad oedd pobl ifanc yn cymryd rhan mewn cyfnod cynharach? A
- Beth am fynd â'r ymgynghoriad i ysgolion yn uniongyrchol, a chael mynediad i nifer fawr o bobl ifanc ar yr un pryd?

- Canolbwyntiodd digwyddiad yng Nghynulliad Dysgwyr Coleg Merthyr Tudful ar ddau fater sy'n ymwneud â'r amcanion. Dyma nhw:

Gordewdra / gweithgaredd corfforol

- a. Mae angen i'r cynllun lles fod ag ymagwedd aml-wyneb - dylai gynnwys maeth a chyngor proffesiynol, yn ogystal â gweithgaredd corfforol.
- b. Mae angen ystyried fforddiadwyedd - gall cymryd rhan mewn darpariaeth drefnedig neu daledig dair neu bedair gwaith yr wythnos fod yn ddrud.

Lles Cymdeithasol

- c. Gwneud cyfleusterau coleg ar gael i grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol y tu allan i oriau craidd.
- d. Datblygu gweithgareddau a chyrsgiau rhyng-genedlaethau, fel y gellir, yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu sgiliau personol hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.

Ymgynghori ar-lein

Roedd yr ymgynghoriad ar-lein ar agor rhwng 26 Medi a 19 Rhagfyr 2017. Mae'r ymgynghoriad ar-lein llawn i'w weld yn Atodiad C - Cwestiynau ymgynghori ar-lein.

Pwy wnaeth gwblhau'r ymgynghoriad ar-lein

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar-lein, casglwyd rhai nodweddion personol i ddeall pwy a ymatebodd. Nid oedd y cwestiynau hyn yn orfodol. Lle darperir atebion dyma nhw

Wedi'i grynhoi isod

Rhyw

39 o fenywod

38 gwryw

Oedran

25-34 oed 6 o ymatebwyr

35-44 oed 15 o ymatebwyr

45-54 oed 20 o ymatebwyr

55-64 oed 14 o ymatebwyr

65-74 oed 5 o ymatebwyr

85+ oed 1 atebydd

Codau post (cyfanswm o 45)

Pontypridd 14

Aberdâr 12

Porth 9

Ferndale 3

Tonypanyd 2

Treorci 2

Pontyclun / Talbot Green 2

Merthyr Tudful 1

Roedd yr ymgynghoriad ar-lein yn cynnwys y cwestiynau canlynol. Mae'r ymatebion wedi'u cyfuno i roi synnwyr o'u cynnwys a'u grŵpio mewn themâu sy'n dod i'r amlwg.

C1 Yr hyn sy'n bwysicaf i chi a'ch

107 o ymatebion i'r cwestiwn hwn
Roedd 58 yn ymwneud ag Amcan Un
Roedd 76 yn ymwneud ag Amcan
Dau
Roedd 45 yn ymwneud ag Amcan Tri

Themâu sy'n dod i'r amlwg:
Iechyd 76 Teulu / Tai 20
Cyfleusterau / Gwasanaethau 45 Cludiant 6
Diogelwch 29 Cyflogaeth 4
Cymuned 26 Tlodi 4
Amgylchedd 25 Addysg 3

teulu yn eich cymuned ?

Iechyd

Yn debyg i'r gweithdai ymgynghori, mynediad amserol at wasanaethau oedd y prif fater ar gyfer ymatebwyr, gyda 20 o ymatebion yn sôn am hyn. Yn benodol, codwyd dau fater:

- mynediad at ddarpariaeth Meddygon Teulu - amseroldeb penodiadau a heriau sy'n cysylltu â'r feddygfa (12 yn nodi); a
- mynediad at wasanaethau iechyd allanol a gwasanaethau iechyd cyffredinol (10 yn nodi).

Roedd pryder penodol ynglŷn â gwasanaethau iechyd meddwl a'r angen i ddarparu digon o wasanaethau i ateb y galw (11 yn nodi).

Codwyd lles cyffredinol fel pryder (25 yn nodi). Soniwyd hefyd am yr angen i bobl gadw'n heini a chynnal eu hiechyd corfforol. Fel gyda ffynonellau data eraill o'r ymarfer ymgynghori hwn, roedd y sylwadau'n cynnwys yr angen am weithgareddau trefnedig a'r cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch dan hunan arweiniad, yn yr achos hwn yn aml yn ymwneud â gweithgareddau teuluol.

Cyfleusterau / gwasanaethau

Y neges gyffredinol oedd bod angen i fynediad at bob gwasanaeth cyhoeddus fod yn well. Soniwyd yn benodol am ddarparu mwy o weithgareddau yn y teulu (gweler uchod - Iechyd).

Diogelwch

Roedd ymatebwyr am weld strydoedd mwy diogel, yn enwedig i bobl hŷn a phobl ifanc. Roedd rhieni'n benodol yn awyddus i alluogi eu plant i chwarae y tu allan yn ddiogel.


Roedd yna awydd hefyd i weld gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys cymryd cyffuriau yn y trefi mwy.

C2 - Pa newidiadau yr hoffech eu gweld yn ystod 5, 15 a 30 mlynedd?

Gofynnwyd tri chwestiwn i'r ymatebwyr ynghylch pryd y byddent yn hoffi gweld newidiadau sy'n deillio o'r amcanion a'r cynllun Lles. Nid oedd eu hymatebion yn gyfyngedig gan gynnwys yr amcanion, ond gwnaethom edrych ar yr ymatebion yn y cyd-destun hwn i ddechrau.


Mae Ffigur 1 isod yn dangos nifer yr ymatebion a dderbyniwyd ar gyfer pob un o'r tri chwestiwn sy'n ymwneud â phob un o'r tri amcan;

Ffigur 1



Fel gyda'r digwyddiadau ymgysylltu, fe wnaethom hefyd fesur y themâu sy'n dod i'r amlwg o fewn y sylwadau a oedd yn torri ar draws y tri amcan. Cyflwynir y wybodaeth hon yn Ffigur 2 isod. Unwaith eto, iechyd oedd y thema fwyaf amlwg ar draws ymatebion, sef yr ymateb mwyaf aml ar gyfer y tri opsiwn. Roedd y cyfleusterau / gwasanaethau'n ymddangos yn uchel mewn ymatebion am 5 a 15 mlynedd.

Ffigur 2



Mae'r tabl isod yn dangos y tair thema fwyaf cyffredin ar gyfer pob un o'r opsiynau (am gyfnod 5, 15 a 30 mlynedd), nifer yr ymatebion i bob thema, ac enghreifftiau o'u cynnwys.


Tabl 1: Ymatebion, yn ôl thema ac amser

Safle	5 mlynedd	15 mlynedd	30 mlynedd
1^{af}	<p>Iechyd (45 ymateb):</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwella prydlondeb mynediad at ddarpariaeth meddygon teulu Gwella gwasanaethau iechyd meddwl Gwella lles 	<p>Iechyd (26 ymateb):</p> <ul style="list-style-type: none"> Pryderon ynghylch yr hyn y bydd gofal cymdeithasol yn ei olygi <ul style="list-style-type: none"> Diagnosis cyflymach o gyflyrau, sgrinio rhagweithiol ar gyfer grwpiau risg uwch a phobl iau 	<p>Iechyd (23 ymateb):</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwasanaethau iechyd meddwl i gael yr un proffil a'r cyllid sydd gan wasanaethau canser yn awr <ul style="list-style-type: none"> Gwell cymorth i ofalwyr, a lles gofalwyr
2^{il}	<p>Cyfleusterau / Gwasanaethau (41 ymateb):</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus Lleoli mwy o wasanaethau o fewn cymunedau 	<p>Cyfleusterau / Gwasanaethau (17 ymateb):</p> <ul style="list-style-type: none"> Mwy o gyfranogiad trigolion yn rhedeg a gwneud penderfyniadau ar eu cyngor <ul style="list-style-type: none"> Cynyddu'r ystod a'r nifer o fusnesau a chyfleusterau sy'n eiddo i'r gymuned 	<p>Amgylchedd (13 ymateb):</p> <ul style="list-style-type: none"> Diogelu a gwella mannau agored cyhoeddus / mannau gwyrdd Datblygu cynlluniau amgylcheddol lleol / rhanbarthol <ul style="list-style-type: none"> Gwell cydbwysedd rhwng amddiffyn a datblygu
3ydd	<p>Cymuned (29 ymateb):</p> <ul style="list-style-type: none"> Darparu mwy o weithgareddau yn y gymuned <ul style="list-style-type: none"> Rhoi mwy o annibyniaeth i gymunedau - yn eu gwneud yn fwy galluog i reoli eu hunain 	<p>Trafnidiaeth (15 ymateb):</p> <ul style="list-style-type: none"> Integreiddio system drafnidiaeth fel ei fod yn cyd-fynd â gwasanaethau a chyfleusterau Lleihau tagfeydd o gwmpas ysgolion 	<p>Teulu / Tai (10 ymateb):</p> <ul style="list-style-type: none"> Dileu digartrefedd <ul style="list-style-type: none"> Digon o dai gwarchod / annibynnol ar gyfer pobl hŷn

Amcan Un - Cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus

Roedd 67 o ymatebion i'r cwestiwn "Beth ydych chi'n ei feddwl am yr amcan lles hwn?". Roedd yr ymatebion yn hynod gefnogol i'r amcan cyffredinol a'r camau a oedd ynghlwm wrthi. Mae Ffigur 3 yn dangos dadansoddiad o farn yr ymatebwyr.

Ffigur 3



Cefnogol

- Amrywiaeth eang o ddatganiadau cefnogol, gyda rhywfaint o sôn am ddatblygu rôl gwirfoddolwyr - ond gyda'r cafeat y darperir hyfforddiant a chymorth i'r rheiny sy'n gwirfoddoli.

Adeiladol

- Gellid defnyddio'r amcan i gau mwy o wasanaethau ac arbed arian a bydd yn lleihau neu'n dileu darpariaeth mewn cymunedau llai.
- Mae'r amcan yn unig yn ailadrodd yr hyn sydd wedi'i roi ar waith mewn strategaethau eraill eisoes - Cymunedau yn Gyntaf, Plant yn Gyntaf, ac ati - ac nid yw'n darparu dim newydd.
- Nid yw wedi ei gostio, a bydd yn anodd gosod targedau ar gyfer mesur ei effaith.

Awgrymiadau o bethau y gellid eu gwneud i fodloni'r amcan hwn

- Mae angen i wella'r cysylltiadau trafndiaeth i'r 'ardaloedd canolbwynt' fod yn rhan o'u datblygiad.
- Wrth ddatblygu'r meysydd canolbwynt, mae angen ymgysylltu â, a defnyddio gwybodaeth a barn y gymuned gyfan. Gellir hwyluso hyn gan grwpiau presennol megis cynghorau cymuned, Cymdeithasau Tenantiaid a'r trydydd sector.

"Mae llawer iawn o fiwrocratiaeth yn atal cymunedau rhag gwella eu hamgylchedd. Mae ANGEN gwneud hyn yn haws. "

Gofynnwyd tri chwestiwn ychwanegol i'r ymatebwyr, ynghlŷn â beth arall y gellid ei wneud o fewn yr amcan i wneud gwahaniaeth. Mae'r atebion a ddarperir wedi'u crynhoi yn Nhabl 2 isod:


Tabl 2: Trosolwg o'r ymatebion i Amcan Un

Wrth feddwl am Amcan Un, a oes unrhyw beth arall y gallem ei wneud, a fyddai'n gwneud gwahaniaeth ...		
...i chi yn bersonol	...i'ch teulu?	...i'ch cymuned?
<ul style="list-style-type: none"> Gwella cymunedau trwy rymuso pobl. "Dylai cynlluniau i ganoli gwasanaethau gael eu halinio â gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus." 	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu'r ystod o weithgareddau a chyfleoedd i deuluoedd. 	<ul style="list-style-type: none"> Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella ymgysylltiad â'r gymuned.

Amcan Dau - Mae pobl yn byw bywydau hir ac iach

Cafwyd **70 o ymatebion** i'r cwestiwn "Beth ydych chi'n ei feddwl am yr amcan lles hwn?". Roedd mwyafrif yr ymatebion yn gefnogol. Mae Ffigur 4 yn dangos dadansoddiad o farn yr ymatebwyr.

Ffigur 4



Cefnogol

- Cefnogaeth gref ar gyfer dull cydweithredol o wella iechyd corfforol a meddyliol trwy ymarfer corff, gweithgareddau a gwella gwasanaethau.
- Mae argraff gref fod pobl yn ystyried iechyd meddwl yn ffactor pwysig o ran lles cyffredinol, ac y mae angen i ymwybyddiaeth a gwasanaethau wella i gefnogi hyn.

Adeiladol

- Mae'r cynnwys ar gyfer yr amcan hwn yn debyg i gynlluniau a strategaethau blaenorol.
- Mae'r cynnwys hefyd yn swnio beth ddylai fod yn fusnes craidd i'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol.

Awgrymiadau o bethau y gallech eu gwneud i fodloni'r amcan hwn

- Mae fforddiadwyedd a mynediad at ddarpariaeth yn fater allweddol i annog pobl i ymarfer mwy.

"Mae angen ichi wneud campfeydd yn fwy fforddiadwy i bawb. Creu mwy o fannau gwyrdd lle gall pobl gerdded a chymryd rhan yng nghefn gwlad a'r bywyd gwyllt o'u hamgylch. Creu lleoedd diogel i deuluoedd fynd â'u plant allan a chael picnic. "

Gofynnwyd tri o gwestiynau ychwanegol am yr hyn y gellid ei wneud o fewn yr amcan i wneud gwahaniaeth. Mae'r atebion a ddarperir wedi'u crynhoi yn Nhabl 3 isod:


Tabl 3: Trosolwg o'r ymatebion i Amcan Dau

Gan feddwl am Amcan Dau, a oes unrhyw beth arall y gallem ei wneud byddai'n gwneud gwahaniaeth ...		
... i chi yn bersonol?	...i'ch teulu?	...i'ch cymuned?
<ul style="list-style-type: none">• Gwella'r wybodaeth sydd ar gael i bobl ar fyw'n iach, gwella diet, ac ati.• Gwella cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau awyr agored e.e. llwybrau troed a llwybrau beicio, ac offer ymarfer corff.	<ul style="list-style-type: none">• Cynyddu'r ystod o weithgareddau y gellir eu gwneud fel teulu, yn enwedig gan ddefnyddio cyfleusterau awyr agored.• "Gwella ansawdd yr amgylchedd."	<ul style="list-style-type: none">• "Defnyddio asedau'r sector cyhoeddus i hwyluso gweithgareddau a chefnogi grwpiau cymunedol. "• Sicrhau bod yr holl weithgareddau i hyrwyddo / gwella iechyd a lles yn gynhwysol i bob oed a grŵp.

Amcan Tri - Economi leol gryf gyda thrafnidiaeth gynaliadwy

Roedd **69 o ymatebion** i'r cwestiwn "Beth ydych chi'n ei feddwl am yr amcan lles hwn?". Roedd mwyafrif yr ymatebion yn gefnogol - mewn gwirionedd, fel y dangosir yn Ffigur 5, ar draws y tri amcan, roedd dwy ran o dair o'r ymatebion cyffredinol yn gefnogol.

Ffigur 5



Cefnogol

Croesewir unrhyw gynlluniau i wella trafndiaeth gyhoeddus, er bod safbwyntiau amrywiol o ran ble y dylai eich ffocws fod.

- "Mae mynediad i swyddi lleol da yn allweddol i'r boblogaeth iau i aros yn ardal Cwm Taf."
- Byddai gwella hyfforddiant a phrentisiaethau yn cefnogi'r datganiad uchod.

Adeiladol

- Sinigiaeth ar y tebygolrwydd o gyflawni'r flaenoriaeth hon.
- Mae'r ffocws ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn peri pryder i rai pobl - maen nhw'n teimlo hynny, oherwydd y ganran isel o siaradwyr Cymraeg yn ardal Cwm Taf, byddai unrhyw arian a wariwyd ar yr iaith Gymraeg yn cael ei wario'n well mewn mannau eraill.

Awgrymiadau o bethau y gallech eu gwneud i fodloni'r amcan hwn

Datblygu cynllun hyfforddi prentisiaeth / graddedigion Cwm Taf pwrpasol, a'i gysylltu â chwricwlwm ysgolion uwchradd lleol. (formatting???)

- Ni ddylai unrhyw gynlluniau i wella cysylltiadau trafndiaeth ganolbwyntio ar gysylltiadau â Chaerdydd yn unig. Fe all Merthyr ac Abertawe ddarparu manteision, gwasanaethau a chyfleoedd tebyg a dylid gwella cysylltiadau â'r meysydd hyn hefyd.

"Mae'r cynllun prentisiaeth leol a gwerthu'r ardal yn gynlluniau ardderchog, yn gyraeddadwy ac yn fforddiadwy."

Gofynnwyd tri o gwestiynau ychwanegol am yr hyn y gellid ei wneud o fewn yr amcan i wneud gwahaniaeth. Mae'r atebion a ddarperir wedi'u crynhoi yn Nhabl 4 isod:

Tabl 4: Trosolwg o'r ymatebion i Amcan Tri

Gan feddwl am Amcan Tri, a oes unrhyw beth arall y gallem ei wneud byddai'n gwneud gwahaniaeth ...		
... i chi yn bersonol?	...i'ch teulu?	...i'ch cymuned?
<ul style="list-style-type: none"> • <i>"Bydd isadeiledd gwell yn denu pobl a busnesau i'r rhanbarth a darparu cyfleoedd i'r rhai sy'n byw yn y rhanbarth yn barod."</i> • Lleihau cost cludiant. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai awdurdodau lleol roi mwy o ddigwyddiadau diwylliannol a hamdden i drigolion a denu ymwelwyr i'r rhanbarth. • <i>Mae angen i "drafnidiaeth a thagfeydd ffyrdd wella, yn enwedig yn yr awr frys."</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • Dylid datblygu cysylltiadau trafndiaeth i gyd-fynd ag anghenion y gymuned. • <i>"Mae angen i'n cymunedau fod yn lanach gydag opsiynau casglu gwastraff gwell. Mae hyn yn cynnwys manau gwyrdd, nid ardaloedd trefol yn unig. "</i>

Ymatebion statudol

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Ymatebodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'r amcanion drafft a gyhoeddwyd gan bob un o'r 19 BGC. Estynnodd ei hymateb i amcanion drafft BGC Cwm Taf i 20 tudalen

Roedd ei llythyr yn cynnwys llawer iawn o sylw cadarnhaol am waith ac allbynnau'r BGC hyd yn hyn. Roedd hi yn:

- nodi hi bod cynnwys y cynllun Lles drafft yn dilyn yn naturiol o ganfyddiadau eich asesiad Lles;
- canmol y BGC ar y dull gweithredu ymgysylltu cydweithredol a weithredir i ymgysylltu â'r cyhoedd a defnyddwyr y gwasanaeth; a
- cael ei annog gan ymrwymiad y BGC i weithio ar y cyd, gan roi pobl wrth wraidd ei waith.

Mae hi'n cyflwyno dros 40 o gwestiynau uniongyrchol i'r BGC yn ei llythyr. Yn gyffredinol, mae ei gwestiynau a'i gyngor yn cwmpo i ddwy ran:

- help i'r BGC wrth ystyried sut y gallai ddefnyddio'r pum ffordd o weithio i herio busnes fel arfer ac i wneud y gorau o'u cyfraniad at bob un o'r saith nod lles cenedlaethol; a
- yn seiliedig ar y blaenoriaethau, yr awgrymiadau, yr adnoddau a'r cysylltiadau i helpu'r BGC i ddangos ei fod wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio a saith nod lles i lunio'r camau gweithredu.

Mae angen ystyried rhai o'i gwestiynau yn awr, tra bo rhai ar gyfer y dyfodol.

Mae'r blwch isod yn dangos yr amrywiaeth o faterion a gwmpesir gan gwestiynau'r Comisiynydd. Nid yw'n gwneud sylwadau ar addasrwydd yr amcanion a ddewiswyd, ac mae ei sylwadau yn gofyn yn bennaf am sut mae'r BGC yn gweithio a sut mae'n bwriadu diwallu ysbryd y ddeddfwriaeth a'r arweiniad.

Pa themâu y gofynnodd y Comisiynydd amdanynt?

Gweithio mewn partneriaeth 35

Gweithio BGC 25

Cyflawni amcanion 24

Gweithio'n wahanol 18

Ymgysylltu 16

Defnyddio adnoddau 15

Egwyddorion LICD / ffyrdd o weithio 14

Defnyddio data 8

Mae'n galonogol bod rhai o'i hawgrymiadau yn adlewyrchu canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd. Er enghraifft, mae ymateb y Comisiynydd yn nodi: "**... gallai agor tir ac adeiladau i'r gymuned fod yn ffordd o annog perchnogaeth gymunedol, gan ddod â phobl at ei gilydd lle nad oes ganddynt gyfleuster cymunedol a chaniatáu i ddefnydd gwell o'r amgylchedd naturiol.**"

Mae'r awgrym hwn yn cyd-fynd â'r canfyddiad ymgysylltu, bod pobl am weld mwy o ddefnydd o dir, cyfleusterau ac adeiladau gyda'r nos a phenwythnosau pan fyddent fel arfer yn cael eu cau neu eu tanddefnyddio. Mae awgrym y Comisiynydd o berchnogaeth gymunedol yn cymryd y syniad hwn un cam ymhellach ond mae'n ddilyniant naturiol o'r canfyddiad ymgysylltu.

Llywodraeth Cymru

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, gan gynnwys rhai awgrymiadau ynghylch cynnwys newydd neu ychwanegol, hefyd yn cynnwys llawer o sylwadau cefnogol a chanmoliaethus.

Fel gydag ymateb y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, nid yw Llywodraeth Cymru yn rhoi sylwadau ar briodoldeb na chynnwys yr amcanion drafft. Mae ei sylwadau'n canolbwyntio ar sut mae'r BGC wedi cyrraedd y cam hwn a sut y gallai gyflawni ar y cynllun Lles a'i amcanion.

Roedd Llywodraeth Cymru yn hoffi uchelgais a gweledigaeth y cynllun, a chredai ei fod wedi ei ysgrifennu'n dda ac yn gynhwysfawr. Roedd hefyd wedi'i strwythuro'n rhesymegol ac wedi'i osod allan yn glir, gyda theimlad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gwerth gwirioneddol ynghlwm wrth lais y gymuned.

Roedd canfod meysydd i'w datblygu o fewn y cynllun Lles wedi'u categorio'n glir ac maent wedi'u rhestru yn Nhabl 5 isod:

Tabl 1: Argymhellion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun Lles Cwm Taf

Categori	Maes i'w ddatblygu
A - Materion arwyddocaol, i gael sylw cyn cyhoeddi'r cynllun terfynol	Gwneud y mwyaf o gyfraniad at nodau lles cenedlaethol
B - Os rhoddir sylw iddo cyn cyhoeddi, byddai'n cryfhau'r cynllun. Gellid mynd i'r afael â hwy hefyd ochr yn ochr â datblygiad cynnar	Gweithredoedd hirdymor
	Adlewyrchu ymgysylltiad a gynhaliwyd
	Cynnwys partneriaid eraill
	Eglurder ynghylch pwy fydd yn cyflawni'r gweithredoedd
	Cydbwysedd ar draws y pileri lles
	Targedu grwpiau penodol o bobl
	Trafod effeithiolrwydd yr ymyriadau
C - Os rhoddyd sylw iddo, byddai'n cryfhau'r cynllun, ond gellid mynd i'r afael ag ef gan ei fod yn parhau i ddatblygu ac esblygu	Trosglwyddo sut y cafodd camau eu llunio
	Gwella dulliau cyfredol neu ddilyn rhai newydd
	Rhoi'r Cynllun yn y tirlun partneriaeth ehangach
	Dealltwriaeth o fylchau o ganlyniad i'r Aseiad Lles

Unwaith eto, fel gydag ymateb y Comisiynydd, mae rhai o'r materion a godwyd uchod yn adlewyrchu ymatebion yn y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, megis cynnwys partneriaid eraill ac eglurder ynghylch pwy fydd yn cyflawni'r gweithredoedd.

Mae yna hefyd gorgyffwrdd rhwng y camau a amlinellir yn ymateb Llywodraeth Cymru ac ymateb y Comisiynydd.

Ymatebion eraill

Cyngor Iechyd Cymunedol Cwm Taf (CIC)

Mae'r CIC yn:

- cefnogi'r amcanion a'r cynllun Lles drafft;
- Hoffai i'r BGC "feithrin perchnogaeth leol i gyflawni'r amcanion ... gellid defnyddio grwpiau cymunedol fel cyfrwng i'r diben hwn.";
- credu y byddai hyn yn gofyn am strategaeth ymgysylltu i feithrin perchnogaeth leol o'r amcanion; a
- Byddai'n croesawu'r cyfle i gymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiadau ymgysylltu.

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf

